

# Grant Dan Arweiniad Ieuenctid

## Arweiniad i'r Grant

❖ **Mae'r holl sefydliadau sy'n gwneud cais am y grant yn gwneud hynny ar gyfer prosiect sydd wedi'i arwain gan bobl ifanc**

Dylai'r holl grwpiau sy'n gofyn am arian gennym gael eu harwain gan bobl ifanc. Mae pobl ifanc yn cymryd rhan yn llawn o'r dechrau hyd y diwedd ac yn cael dweud eu dweud am yr hyn sy'n digwydd.

❖ **Mae'r prosiect sy'n cael ei sefydlu gan y bobl ifanc yn weithgaredd gwirfoddol**

Dylai'r prosiect gynnwys pobl sy'n hapus i gymryd rhan. Ni ddylai'r bobl sy'n cymryd rhan wneud elw iddynt eu hunain.

❖ **Mae'r mwyafrif o'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y prosiect yma rhwng 14 a 25 oed.**

Dylai'r rhan fwyaf o'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y prosiect fod rhwng 14 a 25 oed. Os yw eich grŵp yn pryderu am hyn, cysylltwch â ni i drafod y mater

❖ **Mae'r prosiect yn digwydd yn Sir y Fflint a bydd pobl o Sir y Fflint yn elwa ohono**

Rhaid dangos bod y prosiect o fudd i bobl ifanc a chymunedau Sir y Fflint

❖ **Byddem yn croesawu ceisiadau sy'n cefnogi'r meysydd blaenoriaeth canlynol:**

- Y Blynyddoedd Cynnar (0-7 mlwydd oed) – gweithgareddau sy'n cefnogi plant i fyw bywydau iach, ffyniannus a llawn.
- Tai – gweithgareddau sy'n gwella amodau byw ac yn mynd i'r afael â digartrefedd.
- Gofal Cymdeithasol – gweithgareddau sy'n helpu i feithrin cymunedau cryf ac yn helpu pobl i fyw bywydau annibynnol am hirach.
- Iechyd Meddwl – gweithgareddau sy'n codi ymwybyddiaeth o gyflyrau iechyd meddwl neu'n gwella'r cymorth y mae pobl â chyflyrau iechyd meddwl yn ei gael.
- Sgiliau a Chyflogadwyedd – gweithgareddau sy'n gwella sgiliau a pharodwydd ar gyfer addysg neu gyflogaeth.
- Datgarboneiddio - gweithgaredd sy'n gwella'r amgylchedd

❖ **Rhaid gwario'r grant erbyn Dydd Sadwrn 28 Chwefror 2021**

Rhaid cwblhau'r ffurflenni monitro (ffurflenni sy'n olrhain eich cynnydd) a'u hanfon i mewn erbyn **Dydd Gwener 26 Mawrth 2021**.

Os oes arnoch chi angen ffurflen gais neu unrhyw gyngor neu gymorth gyda llenwi'r ffurflen, cysylltwch: E-bost: [Heather.Hicks@flvc.org.uk](mailto:Heather.Hicks@flvc.org.uk) Rhif ffôn: 01352 744004

**Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dydd Gwener 7 Awst 2020**